

---

Dan embargo tan 2 Chwefror 2022

## GWEITHIAU CELF CYFRANOGIAD TORFOL YN NHIRWEDDAU EICONIG CYMRU YN RHAN O DDATHLIAD O GREADIGRWYDD LEDLED Y DU

- Mae *Green Space Dark Skies* yn un o bum prosiect mawr sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru fel rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, dathliad o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022
- Mae 20,000 o Lwmenyddion yn cael eu recriwtio i helpu i greu gwaith celf ar gyfer *Green Space Dark Skies* yng Ngŵyr, Bannau Brycheiniog ac Ynys Môn, a ledled y DU
- Mae'r cyntaf o'r pum prosiect UNBOXED yng Nghymru yn agor ar 31 Mawrth yng Nghaernarfon gydag *About Us*. Yn nes ymlaen eleni byddwn yn gweld *GALWAD: Stori o'n dyfodol*, sydd wedi'i gomisiynu gan Cymru Greadigol.

Ledled y DU, mae 20,000 o bobl yn cael eu recriwtio i greu gwaith celf awyr agored ar raddfa fawr, gan gynnwys mewn pedair o dirweddau mwyaf eithriadol Cymru, ar gyfer *Green Space Dark Skies*, rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, o fis Ebrill i fis Medi 2022.

Y prosiect creadigol yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn cael ei gynnal yn AHNE Gŵyr (13 Mai), Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Gorffennaf) ac Ynys Môn (dyddiad i'w gadarnhau), ac mae lleoliad y diwedd glo eto i'w gyhoeddi.

Bydd gwaith celf *Green Space Dark Skies* yn cael ei greu gyda'r nos gan gyfranogwyr, y cyfeirir atynt fel Lwmenyddion. Byddant yn cael eu harwain ar hyd llwybrau neu ddyfrffyrdd gan gario goleuadau clyfar sydd wedi'u cynllunio'n arbennig gan beirianwyr Siemens. Byddant yn galluogi coreograffi digidol wedi'i ddal ar ffilm a byddant hefyd yn sensitif i amgylchedd y nos. Bydd pob ffilm fer yn cynnwys straeon y bobl a'r lleoedd o dan sylw a byddant yn cael eu darlledu ar-lein ar ôl y digwyddiad. Bydd y Lwmenyddion hefyd yn cael eu hannog i rannu eu cysylltiadau eu hunain â thirwedd Cymru a'r ardaloedd lleol fel rhan o'u cyfranogiad.

Bydd *Green Space Dark Skies* yn galluogi pobl o bob math i greu cysylltiadau newydd â chefn gwlad Cymru drwy gefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau diwylliannol a chorfforol i brofi ein Parciau Cenedlaethol a'n Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gael y cyfle i fanteisio ar y digwyddiadau. Bydd y gyfres o gasgliadau o bobl yn dathlu cefn gwlad a hawl pobl i'w harchwilio yn ogystal ag annog ein cyfrifoldeb i ofalu amdano ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Arbenigwyr celf awyr agored *Walk the Plank* yw'r prif sefydliad creadigol sy'n cynhyrchu *Green Space Dark Skies*. Dywedodd Liz Pugh, Cynhyrchydd Creadigol, Cymru:

*Mae'r canolbwynt ar gyfer y casgliadau o bobl yng Nghymru wedi'i lunio gan ddaear a hanes echdynnu – o'r marciau neolithig ar diroedd comin Gŵyr i geoparc Bannau Brycheiniog i'r mwynau o dan y ddaear ar Ynys Môn. Bydd y ffilmiau byr y byddwn ni'n eu creu ym mhob lle yn adrodd stori*

---

*sy'n benodol am bob lleoliad – gyda'n gilydd, byddwn yn goleuo sut mae pobl yn cysylltu â phob lleoliad ar hyn o bryd, yn 2022. Cofrestrwch i fod yn rhan o rywbeth hudolus, yn yr awyr agored, mewn lle yr ydych chi'n ei garu ac eisiau ei ddathlu."*

Wedi'i datblygu yn arbennig ar gyfer y prosiect hwn gan beirianwyr graddedig yn Siemens, mae'r dechnoleg oleuo'n defnyddio goleuadau effaith isel rhaglenadwy diwifr sydd eisoes yn bodoli ac yn ymgorffori rhywbeth nad yw erioed wedi'i wneud o'r blaen: y gallu i'r goleuadau hyn gael eu hanimeiddio drwy geo-leoli, lle bod modd adnabod lleoliad pob golau mewn perthynas â'r lleill; yn ogystal â'r potensial i fabwysiadu'r dechnoleg oleuo hon i'w defnyddio mewn digwyddiadau awyr agored mawr yn y dyfodol.

Mae tîm *Green Space Dark Skies* yn gweithio gyda chynrychiolwyr Dark Skies i archwilio sut y gallai'r prosiect amlygu materion yn ymwneud â llygredd golau yn ein trefi, dinasoedd a thirweddau gwledig i gefnogi ffyniant bywyd gwyllt.

Dywedodd Catherine Mealing-Jones, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

*"Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Walk the Plank ar y digwyddiad pwysig hwn. Gobeithiwn y bydd **Green Space Dark Skies** yn ysbrydoli pobl i warchod ein tirwedd ac arddangos y Parc Cenedlaethol fel lle sy'n rhoi croeso i bawb. Rydym yn llawn cyffro i weld sut mae artistiaid a gwirfoddolwyr lleol yn troi straeon y Bannau yn brofiad unigryw i bawb ei fwynhau. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld sut mae'r prosiect yn datblygu."*

Mae rhaglen UNBOXED yn cynnwys deg prosiect ledled y DU sy'n ddigwyddiadau, gosodiadau a phrofiadau digidol sy'n hygyrch yn fyd-eang wedi'u cynhyrchu gan bobl greadigol o feysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg. Bydd UNBOXED yn cychwyn yng Nghymru gydag About Us ar 31 Mawrth, digwyddiad awyr agored trawiadol, rhad ac am ddim yng Nghaernarfon sy'n dathlu holl hanes y bydysawd o'r Glec Fawr hyd heddiw ac sy'n cynnwys GALWAD, prosiect sy'n gweld Cymru'n cael ei thaflunio deng mlynedd ar hugain i'r dyfodol mewn drama deledu, ar lwyfannau digidol ac mewn digwyddiadau byw ym Mlaenau Ffestiniog, Merthyr Tudful ac Abertawe.

Meddai Martin Green CBE, Prif Swyddog Creadigol UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU:

*"Mae **Green Space Dark Skies** yn dangos yn berffaith yr arloesedd a'r creadigrwydd yr ydym ni wedi'u gweld yn cael eu defnyddio drwy ddatblygu deg prosiect UNBOXED i archwilio syniadau newydd ar gyfer gwell ddyfodol. Drwy ymgysylltu ag artistiaid, peirianwyr, perchnogion tir ac aelodau o'r cyhoedd i greu cyfres o brofiadau unigryw, bydd **Green Space Dark Skies** yn gwella dealltwriaeth pobl o'n hamgylchedd naturiol a'n perthynas â chefn gwlad yn ogystal â dangos grym creadigrwydd i ysbrydoli newid."*

---

Dywedodd John Watkins, Prif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol:

*“Mae 46 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y DU o fewn taith hanner awr i’r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd **Green Space Dark Skies** yn rhoi profiad gwirioneddol unigryw i bobl a’r cyfle i ddatblygu eu perthynas eu hunain â’r tirweddau sy’n cael eu gwerthfawrogi’n genedlaethol ar garreg y drws.*

*Mae’r teulu AHNE wrth ei fodd i fod yn rhan o **Green Space Dark Skies**, prosiect sydd wedi ymrwymo i agor mannau ar gyfer pobl gan warchod natur. Gobeithiwn y bydd y Lwmenyddion yn parhau i ddychwelyd i’w lleoliadau AHNE, gan elwa ar yr heddwch a’r ymdeimlad o wreiddiau sy’n dod â chysylltiad dwfn â lle, ac yn dod yn warcheidwaid amgylcheddol y dyfodol.”*

Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol, Gerwyn Evans:

*“Rydym wrth ein boddau i groesawu Green Space Dark Skies i Gymru yn rhan o ddatliadau UNBOXED. Mae’n gyffrous iawn gweld y cynlluniau creadigol yn datgelu eu hunain, mae’n gyfle gwych i bobl gymryd rhan a chyfrannu – a byddem yn annog pawb i wneud hynny. Rydym yn edrych ymlaen at weld llawer o gymunedau ledled Cymru yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn ystod 2022.”*

Er mwyn diogelu’r lleoedd anhygoel hyn, dim ond i’r bobl sydd wedi cofrestru i gymryd rhan y bydd yr union lleoliadau’n cael eu datgelu. Ni fydd gwylwyr, ond gall pawb gymryd rhan am ddim cyn belled â’u bod yn cofrestru ymlaen llaw a gall pawb wyllo ffilmiau pob digwyddiad ar-lein.

Mae’r gweithiau celf *Green Space Dark Skies* yng Nghymru yn rhan o ddatliad o greadigrwydd ledled y DU. Mae 20,000 o bobl o’r Cairngorms i’r Chilterns, o Gŵyr i North York Moors a Dartmoor i Ddyffryn Lagan yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu recriwtio fel Lwmenyddion.

Bydd digwyddiadau’n cael eu cynnal ledled y DU o 23 Ebrill gyda’r diwedd glo ym mis Medi yn cynnwys digwyddiadau ym mhob un o bedair gwlad y DU, bydd rhagor o fanylion yn y man.

Mae Walk the Plank yn gweithio gyda phob Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i greu digwyddiad fel rhan o *Green Space Dark Skies*. Bydd pob digwyddiad yn dibynnu ar gadarnhau caniatâd perchnogion tir, cymeradwyo cynlluniau digwyddiadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol ac felly gall lleoliadau a dyddiadau digwyddiadau newid

- Cymru: **AHNE Gŵyr** (13 Mai); **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** (Gorffennaf); ac **AHNE Ynys Môn** (dyddiad i’w gadarnhau).

- Lloegr: **Parc Cenedlaethol y Peak District** (23 Ebrill); **Parc Cenedlaethol Dartmoor** (Mai); **Parc Cenedlaethol Exmoor** (28 Mai); **AHNE Dorset** (11 Mehefin); **Parc Cenedlaethol y Broads** (Mehefin); **Parc Cenedlaethol y North York Moors** (dyddiad i'w gadarnhau); ac **AHNE y Chilterns** (dyddiad i'w gadarnhau).
- Gogledd Iwerddon: **AHNE Dyffryn Lagan** (30 Ebrill); **AHNE Arfordir Causeway** (dyddiad i'w gadarnhau); **AHNE Sperrin** (Mehefin).
- Yr Alban: **Parc Cenedlaethol Cairngorms** (Awst); ac **Orkney** (Awst).

Mae Walk the Plank yn gweithio gyda Phrifysgol Salford i ddatblygu rhan o'r prif ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer *Green Space Dark Skies*. Mae Walk the Plank yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel partneriaid creadigol a chyflawni mewn nifer o leoliadau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae *Green Space Dark Skies* yn rhoi cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol wrth wraidd ei gynllunio a'i ddarpariaeth; gan amlygu gwerth yr amgylchedd naturiol fel diben craidd a gan gyflwyno effaith gadarnhaol fesuradwy sylweddol. Bydd *Green Space Dark Skies* yn brosiect carbon net-bositif\* sy'n cyfuno cynhyrchu allyriadau isel enghreifftiol gyda buddsoddiadau yn yr hinsawdd.

*\*Mae tîm Green Space Dark Skies yn mesur ac yn cydbwysu 100% o'i allyriadau anorfod Cwmpas 1 a Cwmpas 2. Mae'r tîm hefyd yn cydnabod ei allyriadau Cwmpas 3 a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r rhain, ac mae'n gweithio'n galed gyda'i randdeiliaid i ymateb i'r her.*

Bydd **UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU** yn cael ei gyflwyno ledled y pedair gwlad rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022. Mae digwyddiadau yng Nghymru yn cynnwys: [About Us](#) (Caernarfon, 30 Mawrth i 6 Ebrill) [Dreamachine](#) (Caerdydd, manylion i'w cyhoeddi), [Green Space Dark Skies](#) (ledled Cymru, Mai i Fedi 2022), [StoryTrails](#) (Casnewydd ac Abertawe, Awst) ac, wedi'i gomisiynu gan Cymru Greadigol, [GALWAD](#): Stori o'n dyfodol (Blaenau Ffestiniog, Abertawe a Merthyr Tudful, 26 Medi i 2 Hydref).

Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac fe'i comisiynir a'i chyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

## Gwybodaeth am y rhestriadau

### Green Space Dark Skies rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

23 Ebrill – 30 Medi 2022

I gymryd rhan yn *Green Space Dark Skies* cofrestrwch yn <https://greenspacedarkskies.uk/cy/cymryd-rhan/>

### UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

1 Mawrth – 2 Hydref 2022

Unboxed2022.uk

---

Gellir lawrlwytho delweddau yn <https://greenspacedarkskies.uk/media-centre>

### I gael rhagor o wybodaeth a delweddau

Ar gyfer *Green Space Dark Skies*, cysylltwch â Seran Bishop | Cowshed | [seran@wearecowshed.co.uk](mailto:seran@wearecowshed.co.uk)  
07535432713 |

Ar gyfer UNBOXED, cysylltwch â [Jeanette.Ward@unboxed2022.uk](mailto:Jeanette.Ward@unboxed2022.uk) | 07729 930 812

### NODIADAU AR GYFER GOLYGYDDION

1. Mae [Green Space Dark Skies](#) rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, yn cael ei gynhyrchu gan Walk the Plank, arloeswyr celfyddydau awyr agored y DU yn gweithio ar y cyd â'r cwmni technoleg Siemens, Prifysgol Salford, Parciau Cenedlaethol y DU a Chymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sy'n gyfrifol am reoli safleoedd digwyddiadau'r prosiect; a gweithio gydag artistiaid amrywiol a chydweithredwyr creadigol mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys cwmni syrca integredig Extraordinary Bodies, y cydweithrediad rhwng Diverse City a Cirque Bijou, Activate Performing Arts a chwmni cynhyrchu ffilmiau CC-Lab.
2. Mae [UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU](#) yn ddathliad o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022, wedi'i gynllunio i gyrraedd miliynau ac i ddod â phobl at ei gilydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau ar raddfa fawr, gosodiadau a phrofiadau digidol sy'n hygyrch yn fyd-eang arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol a phopeth am ddim. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau disgleiriaf mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys deg prif brosiect creadigol aml-safle a digidol sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Bydd digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022 – o'r Outer Hebrides i Dover ac o Omagh i Abertawe, ac ar y cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac fe'i comisiynir a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.
3. Mae tîm o arbenigwyr celf awyr agored [Walk the Plank](#) yn gweithio gyda'i gilydd i freuddwydio, creu a chynhyrchu eiliadau eithriadol o theatr awyr agored a chyfranogiad. Mae ganddynt hanes hir o gynnal digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n dod â phobl at ei gilydd i ddathlu'n gyhoeddus. Mae hyn yn seiliedig ar eu gallu i feddwl am syniadau mawr sy'n cysylltu pobl o bob cefndir. Mae adrodd straeon wrth wraidd popeth y maen nhw'n ei wneud, a'r arena ar gyfer eu gwaith yw'r awyr agored. Eu cenhadaeth yw cyfoethogi bywydau drwy brofiadau creadigol ar y cyd.

- 
4. [Parciau Cenedlaethol y DU](#). Mae 15 o Barciau Cenedlaethol yn y DU, sy'n cynnwys 10% o Brydain Fawr. Ymwelir â Pharciau Cenedlaethol yn fwy na 100 miliwn o weithiau bob blwyddyn. 2021 oedd pen-blwydd 70 oed y pedwar Parc Cenedlaethol cyntaf – Peak District, Dartmoor, y Lake District ac Eryri.
  5. Mae [Siemens](#) yn gwmni technoleg sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant, seilwaith, trafndiaeth a gofal iechyd. O ffatrïoedd sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau, cadwyni cyflenwi cadarn, ac adeiladau a gridiau mwy clyfar, i drafndiaeth lanach a mwy cyfforddus yn ogystal â gofal iechyd uwch, mae'r cwmni'n creu technoleg gyda diben, gan wir ychwanegu gwerth i gwsmeriaid. Drwy gyfuno bydoedd gwirioneddol a digidol, mae Siemens yn grymuso ei gwsmeriaid i drawsnewid eu diwydiannau a'u marchnadoedd, gan eu helpu i drawsnewid y beunyddiol i filiynau o bobl.
  6. Mae [Prifysgol Salford](#) wedi'i lleoli yng nghanol Manceinion Fwyaf. Mae ganddynt dros 20,000 o fyfyrwyr, 2,000 o staff a chymuned fyd-eang o 170,000 a mwy o gyn-fyfyrwyr. Maent yn arloesi partneriaethau diwydiant eithriadol sy'n arwain y ffordd mewn profiadau gwirioneddol yn y byd drwy baratoi myfyrwyr ar gyfer eu bywydau. Maent yn gweithio gyda diwydiant i greu'r cwricwlwm ar y cyd gan gynhyrchu graddedigion sy'n barod am waith yn bennaf yn y sectorau iechyd a lles, peirianeg, digidol a chreadigol. Maent yn parhau i fuddsoddi yn eu campws a'u cyfleusterau gyda phrif gynllun gwerth £300 miliwn a fydd yn eu gwneud yn gymwys ar gyfer y dyfodol.
  7. Mae'r [National Association for AONBs](#) yn elusen sy'n rhoi llais cryf ar y cyd i 46 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) y DU. Ei hamcanion yw hybu cadwraeth a gwella lleoliadau AHNE, hyrwyddo addysg, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o leoliadau AHNE, a chynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd AHNE. Mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio dull cydweithredol sy'n seiliedig ar bartneriaeth o weithio gyda'n haelodaeth a sefydliadau eraill ar lefel genedlaethol i gyflawni nodau ar y cyd.
  8. [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#). Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn elusen gadwraeth a gafodd ei sefydlu yn 1895 gan dri o bobl: Octavia Hill, Syr Robert Hunter a Hardwicke Rawnsley, a welodd bwysigrwydd treftadaeth a manau agored y genedl ac a oedd eisiau eu cadw er mwyn i bawb eu mwynhau. Heddiw, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym ni'n parhau i ofalu am leoedd fel y gall pobl a natur ffynnu. Yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am fwy na 250,000 hectar o ardaloedd cefn gwlad, 780 milltir o ardaloedd arfordirol a 500 o eiddo hanesyddol, gerddi a gwarchodfeydd natur.

GREEN SPACE  
DARK SKIES



Funded by



Delivered in partnership with



PRESENTED BY



CORE PARTNERS



PARTNERS

